# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Ty_Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020

Amser: 14.00 - 16.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6337

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Caroline Jones AS |
| Tystion: | Rhys Gwilym-Taylor, Senior Policy and Public Affairs Officer, Crisis<br>Jennie Bibbings, Shelter Cymru<br>Clarissa Corbisiero-Peters, Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Katie Dalton, Cymorth Cymru<br>Matt Dicks, CIH Cymru<br>Andrea Lewis, Cyngor Abertawe<br>Jim McKirdle, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Callum Davies, Welsh Policy & Public Affairs Officer, NRLA |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r cyfarfod.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, nododd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Nododd y Cadeirydd, os bydd yn gadael y cyfarfod heb rybudd am unrhyw reswm, fod y Pwyllgor wedi cytuno y bydd Dawn Bowden AS yn dod yn Gadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Ymchwiliad i effaith Covid-19: sesiwn dystiolaeth ar ddigartrefedd

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Rhys Gwilym-Taylor, Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Crisis
- Jennie Bibbings, Rheolwr Ymgyrchoedd, Shelter Cymru
- Katie Dalton, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru

2.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd Shelter Cymru i ddarparu data ar ymatebion awdurdodau lleol i ddigartrefedd yn ystod y pandemig.

## 3 Ymchwiliad i effaith Covid-19: sesiwn dystiolaeth ar dai

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Clarissa Corbisiero, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol / Dirprwy Brif Weithredwr, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Matt Dicks, Cyfarwyddwr, CIH Cymru

- Y Cynghorydd Andrea Lewis, Llefarydd ar Dai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Jim McKirdle, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Calum Davies, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl

3.2 Yn ystod y cyfarfod:

- Cytunodd Cartrefi Cymunedol Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am gael gwared yn raddol ar yr angen blaenoriaethol ar gyfer pobl ddigartref yn yr Alban.
- Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan Gyngor Abertawe ynghylch datblygu cartrefi newydd i gefnogi’r adferiad economaidd ehangach.

## 4 Papur i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch y sesiwn dystiolaeth ar 14 Mai - 30 Mehefin 2020

4.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch y sesiwn dystiolaeth ar 14 Mai.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitemau 1 a 2 o’r cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2020

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i effaith Covid-19: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.

## 7 Ystyried gohebiaeth â'r Llywydd ynghylch Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Llywydd ynghylch Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).